MEHEFIN A GORFFENNAF 2025

YSGOL PENNAL


# LLEISIAU PENNAL



## SWYDDOGION IAU DIOGELWCH Y FFORDD

Diolch yn fawr i Nia a Pearl (Swyddogion Iau Diogelwch y Ffyrdd am ei gwaith drwy'r flwyddyn. Swydd bwysig iawn yn hybu ac annog diogelwch y ffyrdd yn yr ysgol. I ddiolch am ei gwaith da, derbyniodd y ddau dystysgrif a medal gan Swyddogion Diogelwch Ffyrdd Gwynedd.

## JAMBORI'R URDD



Cafodd Jambori rhithiol ei gynnal ar Ddydd Mercher yr 2ail o Orffennaf. Roedd y Jambori wedi ei gynnal er mwyn dangos ein cefnogaeth i dim Ewros Merched Cymru. Roedd Stwnsh yn cyflwyno'r Jambori, a gwyliom y cyfan efo'n gilydd ar y sgrin fawr. Ein hoff gennym ni yw 'Aderyn Melyn' a 'Dwin Gymro dwin Gymraes'. POB LWC TÎM MERCHED CYMRU.
Ysgrifennwyd gan Melys, Tomos a Bleddyn





# DIWRNOD YN YR HEN YSGOL




Rydw i yn caru hanes, popeth hanes! Ar ôl i Mr Elis o'r archifdy ddod i Ysgol Pennal i siarad am yr ysgol ers talwm, cawsom ni fynd i'r hen ysgol yn Amgueddfa Lloyd George, Llanystumdwy. Rydym ni yn dysgu am yr ysgol ers talwm gan fod Ysgol Corris yn saith deg oed ar ym mis Mehefin. Roedd Amy yn hoff iawn o'r meinciau mewn rhesi, a Harry'n caru cael agor a chau desg bren y 'monitor' yn y tu ôl. Gweld Mr Elis yn rhoi cansen ar law Arrow a phawb yn bod yn dawel oedd hoff brofiadau Silyn, ac roedd Robin wedi mwynhau clywed Mr Elis yn gweiddi! Roedd Emilia wedi hoffi ysgrifennu ar lechen, ac Ayda wedi hoffi cael poeri i lanhau'r lechen ar ôl gorffen gwaith! Doedd y merched ddim yn meddwl fod gorfod gwnïo tra oedd y bechgyn yn gwneud ymarfer corff yn broblem, na gorfod sefyll ar wahân ym mhob llun ychwaith! Rydym ni wedi gofyn i Mrs Lockett am gael ymarfer 'drills' tablau fel plant ers talwm yn Ysgol Pennal. Bydd dweud y tablau fel robot yn ein helpu ni i'w cofio a gwneud cynnydd.
Fel ac a ddwedwyd gan Jack Norman.









# LLEISIAU PENNAL

## CELF A CHREFFT YR URDD



Dyma enillwyr Celf a Chrefft yr Urdd ddaeth yn fuddugol. Rydym yn falch iawn o'n llwyddiant.

## ATHLETAU'R URDD

Llongyfarchiadau i ddisgyblion y Ffederasiwn ar eu llwyddiant yng Nghystadleuaeth Athletau'r Urdd yn Harlech un noson braf diwedd Gorffennaf. Rydym yn falch iawn o'ch llwyddiant.




Ras 80m Bechgyn Bl.3
2ail - Curig Breese
Ras 80m Merched Bl.3
3ydd – Elain Puw
Ras 80m – Merched Bl.4
2ail - Melys Morus-Baird
Ras 80m – Merched Bl.5
3ydd - Grace Hussain
Naid Hir Merched Bl.3
1af - Elain Puw
Taflu Gwaywffon Merched Bl.4
1af - Melys Morus-Baird Ffe
Taflu Gwaywffon Bechgyn Bl.5
2ail - Otis Jones ,
3ydd - Leafin Onnen
Taflu Shot Merched Bl.4
2ail - Melys Morus-Baird
Taflu Shot Bechgyn Bl.5
2ail - Tomos Parry

# SESIWN GWENYN





Mae dwsinau o fanciau gwenyn wedi'u creu yn Nhalgylch Dyfi i helpu'r gwenyn unig a gwenyn gwyllt. Mae ffermwyr a phlant yr ysgol wedi clirio llechwedd sy'n wynebu'r de tu ôl yr Ysgol i greu ardaloedd moel, heb bridd, ar gyfer y gwenyn gwyllt i'w ddefnyddio fel cartref yn yr haf ac i frenhinesau cacwn gwyllt i gysgu dros y Gaeaf. Diolch i Heather, Partneriaeth Pennal am drefnu bod yr ysgol yn rhan o hyn.


# ARBROFI DWR

Un amser chwarae yn mis Gorffennaf daeth Heather heibio'r ysgol tra'n arbrofi'r dwr yn afon Sychan. Cafodd y disgyblion wylio Heather yn arbrofi'r dwr a trafodwyd yr hyn oedd yn digwydd gyda'r disgyblion.



Pennal 2050

# WYTHNOS TROSGLWYDDO



Rydym ni wedi cael diwrnod blasu yn y dosbarth y byddwn ni'n trosglwyddo iddo ar ôl gwyliau'r Haf. Cafodd y Dosbarth Sylfaen newydd wneud brechdan trên bach coch fel trên bach Oriol Oren. Cymeriad ydi Oriol Oren sydd wedi dod i'r ysgol i'n helpu ni i ddathlu Penblwydd Ysgol Dyffryn Dulas yn 70 oed. Roedd angen dilyn cyfarwyddiadau cam wrth gam, a torri pob brechdan yn ei hanner, ac yn ei hanner eto i wneud pedwar chwarter bob un. Byddwn yn croesawu nifer o ddysgwyr newydd i'r Meithrin a Derbyn ym mis Medi. Mae pawb yn edrych ymlaen yn fawr iawn i fod yn eu cwmni!
Fel ac a ddwedwyd gan Riley.



# EGLWYS SANT PEDR



Diolch yn fawr iawn i Mrs Ramsbotham am ein tywys o amgylch Eglwys Sant Pedr fel rhan o'n thema 'Ein Pentref Ni'. Ein hoff brofiad oedd cael gweld y model matsis o'r eglwys a'r gwisgoedd gwahanol mae'r gweinidog yn ei wisgo yn ystod gwahanol wasanaethau.
Fel ac a ddwedwyd gan Amy, Arrow a Robin.

# LLEISIAU PENNAL

## MEHEFIN A GORFFENNAF 2025


## TAITH GWIN

Dydd Sadwrn, 14eg o Fehefin cawsom brynhawn bendigedig ar ein Taith Gerdded Natur a Gwin blynyddol. Trefnwyd y digwyddiad eto leni gan Rhys, Sian, Glyn a Corina. Roedd cyfle i'r plant ymuno â helfa drychfilod yn ystod y daith, diolch i Adfer Dyfi a Heather, Partneriaeth Pennal. Cludwyd y cerddwyr gan dractor a threlar i fan cychwyn y daith yng Nghwm Maethlon, yna cerdded i lawr i'r Aber, diolch i ffermwyr lleol a'r croeso cafwyd gan bawb ar hyd y daith. Ar hyd y daith, bum yn stopio am glasied o wîn a chydig o fwyd mewn amrywiol lefydd. Codwyd £1430 tuag at brynu adnoddau newydd i'r ardal allanol. Diolch yn fawr i gymuned Pennal am gefnogi ein digwyddiadau ac i bawb fu'n helpu yn ystod y digwyddiad llwyddiannus.











Mae Ysgol Pennal yn ddiolchgar iawn i gwmni a.hak am y rhodd ariannol o £500 tuag at brynu offer chwaraeon newydd i'r ysgol. Rydym yn aml yn gweld cerbydau a.hak ar y ffyrdd tra'n gosod y pibelli nwy rhwng Pennal a Thywyn. Daeth Nigel Clarke a Kees Brouwer i'r ysgol i gyflwyno siec i ni diwedd mis Mehefin. Diolch yn fawr.

MEHEFIN A GORFFENNAF 2025

LLEISIAU PENNAL

# TWRNAMENT HOCI





Roedd Gŵyl hoci wedi ei drefnu ar astro Ysgol Uwchradd Tywyn ar Fehefin 27ain. Roedd disgyblion Ysgol Pennal, Ysgol Dyffryn Dulas, Ysgol Pen y Bryn a Ysgol Chraig y Deryn wedi ymuno i gael hwyl a gwella ein sgiliau hoci. Roedd Blwyddyn 3 a 4 yn chwarae yn y bore, a Blwyddyn 5 a 6 yn y prynhawn. Roeddwn wedi mwynhau cael chwarae ar yr astro tyrf ac wedi mwynhau cael chwarae mewn timau mawr. Roedd un damwain anffodus pan gafodd Bleddyn ei daro gan ffon hoci yn ei wefusau! Bleddyn druan. Diolch yn fawr i bawb gwaeth drefnu diwrnod da!

Ysgrifennwyd gan Leafin, Cali, Iestyn ac Angharad

# RNLI




Diolch i RNLI am ddod i'r ysgol i drafod diogelwch y dwr gyda'r disgyblion. Mae'n bwysig iawn bod y disgyblion yn dysgu am ddiogelwch ar y mor. Nod y sesiynau yw rhoi dealltwriaeth i ddisgyblion o ddiogelwch dŵr a'u galluogi i adnabod problemau a allai ddigwydd mewn, ar ac o amgylch dŵr.

Mae'r sesiwn yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o beth i'w wneud os ydyn nhw mewn trafferth neu os ydyn nhw'n gweld rhywun arall mewn trafferth

# MEHEFIN A GORFFENNAF 2025

# LLEISIAU PENNAL

## TRIP YSGOL

Ar y 25ain o Fehefin aeth Ysgol Pennal a Ysgol Dyffryn Dulas Corris i Park Hall Farm ar ein trip diwedd flwyddyn. Y gweithgaredd cyntaf oedd reid mewn trelar tractor o amgylch y fferm ac yna i odro'r fuwch. Gwelon ni geffyl o'r enw 'Little Mix' a chafodd pawb gyfle i frwsio'r ceffyl. Cawsom ni gyfarfod defaid o bob math. Roedd wedi mwynhau'r chware meddal ac wedi mynd yn wyllt.

Jesse "Fy hoff ran oedd y cwningod", Curig "Dwi wedi prynu tractor class coch", Jack "Fy hoff beth yn Park Hall Farm oedd y go-carts, es i yn gyflym iawn." Harry " Fy hoff beth yn Park Hall Farm oedd y parc"

Ysgrifennwyd gan Jesse, Curig, Jack a Harry































## MAPIO



Rydym ni wedi bod yn atgoffa ein hunain o'r enwau Cymraeg cywir am adeiladau pwysig Pennal. Rydym ni'n gallu eu gosod yn gywir ar fap llawr mawr o bentref Pennal rŵan hefyd. Roeddem ni'n hoffi gwybod beth oedd yr adeiladu pwysig ers talwm. Ein hoff ran o ddysgu sut i ddarllen map oedd rhaglennu Robin ein robot bach i deithio o amgylch map pentref Pennal gan drefnu'r cardiau codio. Roedd raid i ni ddarganfod beth oedd ystyr pob cerdyn codio yn gyntaf cyn meddwl am gyfarwyddiadau addas i ddweud wrth Robin robot sut deithio o sgwâr i sgwâr ar y grid map.
Fel ac a ddwedwyd gan Jack Norman.



## PC SION A PC DELYTH

Diolch i PC Sion a PC Delyth am alw heibio un pnawn braf i ddangos y fan heddlu.
Cawsom gyfle i eistedd yn y fan heddlu (y cefn a'r tu blaen) a chyfle i drafod gwaith yr heddlu o ddydd i ddydd.





# MABOLGAMPAU








Cynhaliwyd Mabolgampau'r Ffederasiwn yn Ysgol Dyffryn Dulas a bum yn lwcus iawn o'r tywydd eleni. Cawsom llawer o hwyl yn cymryd rhan yn y gwahanol weithgareddau yn ystod y dydd. Roedd yna dipyn o gystadleuaeth rhwng y tri dim a daeth tim Sychan yn gyntaf eleni.








# HWYL FAWR MR RAMBSBOTTAM






Dydd Iau olaf y tymor, ffarweliwyd gyda Mr Rambsbottam. Mae Mr Rambsbottam wedi bod yn rhan mawr o Ysgol Pennal ers sawl blwyddyn.
Mae Rambsbottam wedi bod yn cynnal gwasanaethau bob dydd Iau, a mae'r disgyblion wedi mwynhau'r gwasanaethau yn fawr. Hefyd, bu'n cynnal Gwasanaethau Diolchgarwch, Cristingl a'r Pasg,





Cafodd Mr Rambsbottam ginio efo ni ar y dydd Iau.
Paratodd Anti Kim ei hoff fwyd iddo - cyri a reis a crymbl afal i bwdin.

# HWYL FAWR BLWYDDYN 6




Wrth i ni gyrraedd diwedd blwyddyn ysgol wych arall, rydym yn ffarwelio gyda Pearl, Lexi a Nia ac yn dymuno pob lwc iddynt yn Ysgol Bro Hyddgen.
Rydym hefyd yn ffarwelio gyda Meilir Jones ac yn dymuno pob hwyl iddo yn Ysgol Pentrecelyn.





# POB LWC MR WILLIAMS



Ar ddiwedd tymor, ffarweliwyd gyda Mr Dafydd Williams sydd wedi bod yn Gymhorthydd dosbarth, Goruchwyliwr Clwb Brecwast ac yn Oruchwyliwr Ganol Dydd yn ystod y flwyddyn diwethaf,

Rydym yn dymuno pob lwc i Mr Williams yn ei swydd newydd yn mis Medi.

# MEHEFIN A GORFFENNAF 2025

# LLEISIAU PENNAL

## BARBECIW DIWEDD FLWYDDYN







Diolch yn fawr i Ffrindiau Ysgol Pennal am drefnu barbeciw llwyddiannus iawn nos Fercher ola y tymor yng ngardd Glan yr Afon. Rydym yn ddiolchgar iawn i rhieni a'r gymuned am gynnal y digwyddiad. Gwnaed elw anghygoel o £792 ar y noson.











Diolch yn fawr i Alwyn, Wayne a Tom bu'n cerdded 29 milltir ar ddiwrnod y Barbeciw. Cerddodd y tri o Bennal i dop Cader Idris a nôl i Glanyrafon i'r barbeciw mewn 12 awr. Diolch am gasglu arian ar gyfer Ysgol Pennal a Thim Achub Mynydd Aberdyfi.